# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

## Cofnodion (EL(3)-02-08)

**Dyddiad: 23 Ionawr 2008**
**Amser: 9.00am – 10.50am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd**

### Aelodau Cynulliad yn bresennol

Gareth Jones (Cadeirydd), Aberconwy
Alun Cairns, Gorllewin De Cymru
Christine Chapman, Cwm Cynon
Jeff Cuthbert, Caerffili
Huw Lewis, Merthyr Tudful a Rhymni
David Melding, Canol De Cymru
Sandy Mewies, Delyn
Janet Ryder, Gogledd Cymru
Kirsty Williams, Brycheiniog a Sir Faesyfed

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Dr Kathryn Jenkins, Clerc
Daniel Collier, Dirprwy Glerc

### Arbenigwr y Pwyllgor

Ben Stokes, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

### Eraill yn bresennol

Dr David Grant, Is-Ganghellor, Prifysgol Caerdydd
Yr Athro Dylan Jones-Evans, Dirprwy Gyfarwyddwr, Canolfan Astudiaethau Uwch, Prifysgol Caerdydd
Yr Athro Ken Woodhouse, Dirprwy Is-Ganghellor Ymgysylltu, Prifysgol Caerdydd
Yr Athro Max Munday, Uned Ymchwil Economi Cymru, Ysgol Fusnes Caerdydd
Geraint Jones, Cyfarwyddwr Ymchwil a Datblygu Masnachol, Prifysgol Caerdydd

### 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

Diolchodd y Cadeirydd i Janet Ryder am gadeirio cyfarfod y Pwyllgor yr wythnos diwethaf yn ei absenoldeb.

Datganodd Jeff Cuthbert fuddiant fel aelod o Lys Prifysgol Caerdydd.

### 2: Tystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor i gyfraniad economaidd addysg uwch
### Papurau: EL(3) 02-08 – Papur 1, EL(3) 02-08 – Papur 2

2.1 Croesawodd y Pwyllgor Dr David Grant, Is-Ganghellor, Prifysgol Caerdydd; yr Athro Dylan Jones-Evans, Dirprwy Gyfarwyddwr, Canolfan Astudiaethau Uwch, Prifysgol Caerdydd; yr Athro Ken Woodhouse, Dirprwy Is-Ganghellor Ymgysylltu, Prifysgol Caerdydd; yr Athro Max Munday, Uned Ymchwil Economi Cymru, Ysgol Fusnes Caerdydd; Geraint Jones, Cyfarwyddwr Ymchwil a Datblygu Masnachol, Prifysgol Caerdydd

2.2 Craffodd y Pwyllgor ar y dystiolaeth.

**Camau i'w cymryd:**

Cytunodd Prifysgol Caerdydd i ddarparu:

gwybodaeth am y rhaglen 'Step up to University', ei sioeau teithiol a recriwtio, yn cynnwys data ar gysylltiad y Brifysgol ag ysgolion yn y Gogledd, ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig ac ysgolion cyfrwng Cymraeg.

gwybodaeth am raglenni enterpreneuriaeth ym Magloriaeth Cymru.

gwybodaeth o ran defnyddio Rhaglenni Trosglwyddo Gwybodaeth

ffigurau o ran myfyrwyr o Gymru sy'n dilyn cyrsiau ôl-radd ym Mhrifysgol Caerdydd

gwybodaeth am y cysylltiadau rhwng Prifysgol Caerdydd a Sefydliadau Addysg Bellach.

**Papurau i'w nodi:**

### Trosolwg ar waith y Pwyllgor
### Papur: EL(3) 02-08 – Papur 3

Nododd y Pwyllgor ei bapur ar y trosolwg ar waith y Pwyllgor.

### Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol
### Papurau: EL(3) 14-07 – Cofnodion, EL(2) 01-08 - Cofnodion

Cadarnhaodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2007 ac ar 16 Ionawr 2008.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Ionawr 2008**.